Cletwr

Cwmni Cymunedol Cletwr

Llawlyfr staff a gwirfoddolwyr

Adran 2

ADRAN 2

Polisïau a Chanllawiau

Mae'r adran hon o *Lawlyfr Cwmni Cymunedol Cletwr* yn delio â'r gwahanol bolisïau sydd wedi'u mabwysiadu gan y cwmni a'r canllawiau sydd wedi'u crynhoi at redeg y busnes yn gyffredinol.

Bydd yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr o bryd i'w gilydd fel bo'n briodol a byddant yn cael eu huwchraddio pan fydd angen.

Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r polisïau a'r canllawiau hyn, bydd staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hysbysu a bydd y newidiadau'n cael eu gwneud i'r llawlyfr hwn. Ymdrinnir â pholisïau neu ganllawiau ychwanegol yn yr un modd.

Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyfarwyddwyr, cyflogeion a gwirfoddolwyr yn deall ein polisïau

ADRAN 2 - Polisïau a Chanllawiau

1. Polisi Cydraddoldeb

2. Polisi Amgylcheddol

3. Polisi’r Gymraeg

4. Canllawiau Caffael a Phrisio Stoc

5. Canllawiau Disgyblu

6. Canllawiau Cwyno ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr

7. Canllawiau Cyfrinachedd

8. Canllawiau Hylendid Bwyd a Phersonol

9. Canllawiau Iechyd a Diogelwch

10. Canllawiau Adnoddau a Gwaredu Gwastraff

11. Polisi Gwerthu mewn Cysylltiad ag Oedran

12. Polisi Diogelu Plant

13. Polisi Amddiffyn Oedolion Sy'n Agored i Niwed

1. Polisi Cydraddoldeb

Mae Cwmni Cymunedol Cletwr yn ymrwymedig i sefydlu a chynnal amgylchedd gwaith a gwasanaethu cwsmeriaid lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sylfaenol i'n busnes.

Mae cydraddoldeb yn golygu na fydd unrhyw wahaniaethu yn erbyn cyflogeion, gwirfoddolwyr na chwsmeriaid ac ni ymdrinnir â nhw mewn unrhyw ffordd annheg neu anghyfartal.

Nid ydym yn gwahaniaethu ar sail rhywedd, statws priodasol, iaith, hil, tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, anabledd, rhywioldeb, crefydd nac oedran.

RYDYM YN YMRWYMO I:

- Greu amgylchedd lle mae gwahaniaethau unigol a chyfraniadau ein holl staff a gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi

- Rhoi'r hawl i gyflogeion a gwirfoddolwyr i amgylchedd gwaith sy'n hyrwyddo urddas a pharch i bawb a lle na oddefir unrhyw fath o fygwth, bwlio nac aflonyddu

- Sicrhau bod yr holl gyflogeion a gwirfoddolwyr yn cael eu hannog i ddatblygu eu llawn botensial drwy gynnig iddynt hyfforddiant ac asesu unigol a thîm yn rheolaidd

- Dethol cyflogeion ar sail eu cymwysterau, profiad a'u hymroddiad

- Derbyn gwirfoddolwyr ar sail eu dawn, argaeledd a'u hymroddiad

- Ystyried torri ein polisi cyfleoedd cyfartal yn gamymddygiad a allai arwain at achos disgyblu

- Darparu gweithdrefn gwyno sy'n sicrhau bod unrhyw weithiwr cyflogedig neu wirfoddol sy'n credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg mewn cysylltiad ag agweddau ar y polisi hwn yn gallu codi'r mater â'r rheolwyr

- Darparu gweithdrefn lle nodir cwynion cwsmeriaid a'u hadrodd yn ôl wrth Fwrdd y Cyfarwyddwyr am unrhyw gamau i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gynnal

2. Polisi Amgylcheddol

Mae datganiad gweledigaeth *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn ymrwymo i weithredu at safon amgylcheddol uchel. Bydd y polisi hwn yn dylanwadu ar bob agwedd ar y busnes gan gynnwys cymeriad y safle, rheoli'r busnes ac ymddygiad y staff a'r gwirfoddolwyr.

Mae polisi amgylcheddol yn golygu y rhoddir pwyslais ar gyfyngu unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac ar gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod y cyflogeion, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfrannu i gynnal neu wella'r amgylchedd hwnnw.

RYDYM YN YMRWYMO I:

- Gyfarwyddo ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr ynglŷn â'n polisi amgylcheddol
- Lleihau effaith amgylcheddol y nwyddau rydym yn eu gwerthu drwy fonitro eitemau ar sail ffactorau megis deunydd pacio, milltiroedd bwyd, ansawdd organig, y posibiliadau o ran ailgylchu ac amodau cynhyrchu a chludiant
- Arddangos brandiau bioddiraddiadwy o lanedyddion a chynhyrchion eraill sy'n mynd i mewn i'r system ddŵr
- Lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio ac ailgylchu

- Defnyddio deunydd pacio a deunyddiau sydd wedi'u hadennill neu sydd wedi'u hailgylchu lle y gellir gwneud hynny'n rhesymol

- Arbed dŵr ac adnoddau eraill nad ydynt yn adnewyddadwy

- Defnyddio'r cynhyrchion sydd leiaf gwenwynig a mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn foesegol mewn cynifer o agweddau ar redeg a rheoli'r safle a'r busnes ag y bo modd

- Monitro a diweddaru polisïau'n barhaus i wella ein perfformiad amgylcheddol

3. Polisi'r Gymraeg

Bydd *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn 'borth' i ymwelwyr â Cheredigion drwy ddarparu cyflwyniad i ddiwylliant y sir. Bydd yn fusnes â hunaniaeth Gymreig gref a bydd yn darparu gwybodaeth am hanes a threftadaeth leol

Mae datganiad gweledigaeth *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn rhwymo'r cwmni, ei gyflogeion a'i wirfoddolwyr i weithredu mewn ffordd sy'n gefnogol i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae'n cynhyrchu ei holl wybodaeth ffurfiol yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

RYDYM YN YMRWYMO I:

- Gynnal a datblygu defnydd o'r Gymraeg fel elfen ganolog yn niwylliant yr ardal
- Ysgrifennu dogfennau allweddol sy'n ymwneud â'r cwmni a'r busnes yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Gweithredu strategaeth farchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth ddwyieithog
- Darparu arwyddion allanol yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n rhesymol yn y siop a'r caffi yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Annog yr holl staff a gwirfoddolwyr i ddefnyddio Cymraeg sylfaenol fan leiaf lle bo'n briodol ac i gynnig hyfforddiant iddynt i'w helpu i gyflawni hyn

4. Polisi Caffael a Phrisio Stoc

Siop bentre fydd *Cwmni Cymunedol Cletwr* sydd wedi'i stocio'n dda a'i defnyddio'n helaeth ac sy'n darparu ysgogiad economaidd a chymdeithasol i'r fro. Byddwn yn gwerthu nwyddau pob dydd ond hefyd cynnyrch lleol.

Mae'r ysgogiad i sefydlu siop gymunedol wedi dod yn sgil galw yn Llangynfelyn a'r bröydd cyfagos. Mae arolygon wedi dangos y bydd cwsmeriaid lleol yn mynnu ystod dda o nwyddau sylfaenol am brisiau fforddiadwy.

Ceir hefyd alw am ddewisiadau mwy arbenigol gan gynnwys cynnyrch organig a lleol sy'n ystyriol o'r amgylchedd, lle bo ar gael am brisiau cystadleuol. Mae hyn yn cynnwys nwyddau megis ffrwythau, llysiau, llaeth, caws, iogyrt, wyau, cig, cyffeithiau a bara.

Mae 'nwyddau lleol' yn golygu y byddwn yn stocio ystod o nwyddau sy'n tarddu:

- o'r gymuned leol
- o ddalgylch o 50 milltir
- o Gymru

Yn ogystal â chefnogi'r economi leol, mae gan *Gwmni Cymunedol Cletwr* bolisi i leihau costau trafnidiaeth a'i effaith ar yr amgylchedd

RYDYM YN YMRWYMO I:

- Werthu amrywiaeth o nwyddau sylfaenol
- Monitro newidiadau yng ngalw'r cwsmeriaid yn rheolaidd ac ymateb iddynt
- Cynnwys dewis o fwyd a diod iach (yn isel o ran siwgr, halen a braster)
- Stocio cynhyrchion sy'n ystyriol o'r amgylchedd gan gynnwys nwyddau organig a Masnach Deg
- Cael hyd i fwyd a dyfir yn lleol a nwyddau eraill a gynhyrchir yn lleol pan fyddant yn uchel eu hansawdd ac ar gael am brisiau cymharol resymol
- Lle bo'n bosibl, ceir cyflenwadau gan sefydliadau sy'n gweithredu ar egwyddorion sy'n gyson â'r rheini a goleddir gan Gwmni Cymunedol Cletwr h.y. sefydliadau dielw, a redir yn ddemocrataidd ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Mae'r polisi ar brisio'n gysylltiedig â'r polisi ar gael hyd i stoc. Rydym yn anelu at darged ffiniau cyffredinol o 25%. Ystyrir cymariaethau â manwerthwyr eraill

5. Canllawiau a Gweithdrefnau Disgyblu

Nod *Cwmni Cymunedol Cletwr* yw sicrhau bod ganddo enw da a pherthynas dda â'i gwsmeriaid o fewn y gymuned leol a thu hwnt.

Gofynnir bod staff a gwirfoddolwyr yn ymddwyn yn unol â'r holl bolisïau a nodir yn y llawlyfr hwn. Mae'r cod gweithredu a nodir yn y canllawiau disgyblu'n ymwneud yn bennaf â staff cyflogedig. Fodd bynnag, bwriad y canllawiau hefyd yw rhoi cyfeiriad i wirfoddolwyr.

Mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn darparu lefel gwasanaeth dibynadwy sy'n uchel bob amser, felly disgwylir i wirfoddolwyr ymgyfarwyddo â'r safonau cyffredin hyn a chydymffurfio â nhw, os ydynt am barhau'n rhan o'r tîm gwirfoddoli.

Gall enghreifftiau o dor disgyblaeth y cwmni gynnwys:

- Methu â chymryd sylw o orchymyn neu gyfarwyddyd rhesymol
- Methu â chymryd sylw o ofyniad iechyd a diogelwch
- Peidio â chadw amser yn ddigon da
- Perfformiad gwaith sy'n is na'r safonau gofynnol
- Absenoldeb o'r gwaith heb achos iawn na chyfathrebu â'r rheolwr llinell
- Anonestrwydd a defnyddio amser/nwyddau/arian Cletwr mewn ffordd dwyllodrus
- Bwlio neu ymddygiad annheg tuag at aelod arall o staff neu at wirfoddolwr

Egwyddorion

- Ni chymerir camau gweithredu ond ar ôl ymchwilio i'r mater yn drylwyr
- Bydd pob cyfle gan staff/gwirfoddolwyr i gael gwrandawiad i'w hachos
- Mewn gwrandawiad, gall staff/gwirfoddolwyr gael cwmni eu rheolwr, cyd-wirfoddolwr neu gynrychiolydd addas arall
- Gwneir penderfyniadau gan y Rheolwr Busnes yn y rhan fwyaf o achosion
- Gall y penderfyniad terfynol cael ei wneud gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr
- Mae gan weithiwr cyflogedig neu wirfoddol yr hawl i apelio

1. Rhybudd llafar a gofnodir yn ffurfiol. Diystyrir hwn ar ôl 6 mis o wasanaeth boddhaol.

Darperir arweiniad/cyngor os yn briodol.

2. Cyhoeddir **rhybudd ysgrifenedig** yn datgan y rhesymau am y rhybudd os na cheir gwelliant neu os oes trosedd bellach.

Mae'r rhybudd yn 'fyw' am 6 mis neu am gyfnod a bennir gan y Cyfarwyddwyr, gan ddibynnu ar natur/difrifoldeb y drosedd.

3. Cyhoeddir **rhybudd ysgrifenedig terfynol** os bydd perfformiad/ymddygiad yn aros islaw'r safon o fewn y cyfnod 'byw'. Bydd y rhybudd yn datgan mai diswyddo fydd canlyniad methu â gwella neu os ceir camymddygiad eto o fewn cyfnod penodedig.

4. Bydd **diswyddo** gyda rhybudd neu sancsiynau priodol eraill yn digwydd os na cheir gwelliant neu os bydd camymddygiad difrifol yn digwydd eto.

Camymddygiad difrifol

Os bydd gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol yn torri rheolau'r cwmni mewn modd difrifol neu'n gweithredu mewn ffordd megis y rhai a nodir isod, gellid ei ystyried yn gamymddygiad difrifol. Mewn achos o'r fath, bydd yr unigolyn yn cael ei wahardd o'i swydd (ar gyflog llawn, os yn gyflogedig) tra cynhelir ymchwiliad i'r mater. Os, ar ôl ymchwilio, ac o ganlyniad i'r gwrandawiad disgyblu canlyniadol, y credir bod trosedd camymddwyn difrifol wedi cael ei chyflawni, bydd y person hwnnw fel arfer yn cael ei ddiswyddo.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn difrifol yn cynnwys y canlynol, er nad rhestr ddihysbydd yw hon:

- Lladrata neu symud ymaith eiddo'r Cwmni
- Colli, difrodi neu gamddefnyddio eiddo'r Cwmni drwy esgeulustod neu ddiffyg gofal
- Ymddygiad sy'n andwyol i fuddiannau'r Cwmni
- Anallu i weithio yn sgil bod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon
- Ymddygiad bygythiol, neu sarhaus yn erbyn unrhyw berson arall, gan gynnwys ymosodiad corfforol
- Aflonyddu neu wahaniaethu anghyfreithlon

- Meddwdod neu fod o dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon tra yn y gwaith
- Anufudd-dod difrifol
- Cyflawni gweithred y tu allan i'r gwaith neu dderbyn euogfarn am drosedd sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar gyflawni'r contract cyflogi neu wirfoddoli a/neu ar y berthynas rhwng y gweithiwr cyflogedig/gwirfoddolwr a'r Cwmni
- Methu â chydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb y Cwmni
- Esgeulustod difrifol (perfformiad gwaith)
- Esgeulustod difrifol (iechyd a diogelwch pobl eraill)

Rhaid i weithiwr cyflogedig/gwirfoddolwr sydd am apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad disgyblu wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn tridiau gwaith a rhaid iddo ddatgan sail yr apêl. Dylid cyfeirio apeliadau at Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

6. Canllawiau Cwyno ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr

Mae staff a gwirfoddolwyr yn ganolog i lwyddiant *Cwmni Cymunedol Cletwr.* Mae'n bwysig y dylent allu mynegi unrhyw gwynion a phryderon.

Bwriad y canllawiau hyn yw helpu cyflogeion a gwirfoddolwyr i ddelio ag unrhyw broblemau, pryderon neu faterion y dônt ar eu traws yn ystod eu gwaith yng Nghletwr.

Mae'r Cwmni'n ymrwymo i ddelio'n wrthrychol, yn adeiladol ac yn deg ag unrhyw gwynion a all godi ar ran gweithiwr cyflogedig/gwirfoddolwr.

Disgwylir yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bryderon beunyddiol mewn ffordd anffurfiol, naill ai trwy drafod â rheolwyr y siop neu rhwng gwirfoddolwyr a rheolwyr. Bwriad y canllawiau hyn yw ymdrin â materion sy'n gofyn penderfyniad mwy ffurfiol. Nid yw defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau statudol.

Canllawiau Cwyno ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr

Cam 1: Nodwch eich cwynion yn ysgrifenedig.

Gwirfoddolwyr:


Ewch â'ch llythyr at Reolwr y Busnes

Bydd y rheolwr yn darparu ateb ysgrifenedig o fewn 3 ddiwrnod gwaith

Rheolwyr:


Ewch â'ch llythyr neu'i anfon at Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Bydd y Bwrdd yn darparu ateb ysgrifenedig o fewn 5 ddiwrnod gwaith



Cam 2: Os na cheir unrhyw benderfyniad boddhaol, bydd y Bwrdd yn trefnu i chi gwrdd ag un neu ragor o'i aelodau o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn eich cais ysgrifenedig

Gall cydweithiwr cyflogedig neu gyd-wirfoddolwr ddod gyda chi



Cam 3: Daw cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod gyda'r penderfyniad terfynol

Byddwch yn derbyn copi o fewn 7 diwrnod gwaith o'r cyfarfod

7. Canllawiau Cyfrinachedd

Mae cyfrinachedd yn golygu na fyddwn fyth yn datgelu i bobl eraill unrhyw beth rydym yn ei ddysgu am gwsmeriaid, staff neu wirfoddolwyr drwy ein gwaith yn y siop a'r caffi

Mae siop a chaffi cymunedol yn rhywle lle mae'n bosibl dysgu gwybodaeth bersonol am ein cwsmeriaid neu'r bobl rydym yn cydweithio â nhw. Mae'n bwysig ymddwyn gyda disgresiwn wrth weithio yng *Nghletwr*. Gofynnir i staff a gwirfoddolwyr:

- Beidio ag ailadrodd unrhyw glecs y maent yn digwydd eu clywed
- Peidio ag ailadrodd gwybodaeth a roddir i chi'n gyfrinachol
- Peidio â busnesa i'r rhesymau pam mae cwsmeriaid yn prynu rhai eitemau penodol

Os bydd aelod o'r staff neu wirfoddolwr yn torri'r ymrwymiad i gyfrinachedd ac os bydd hyn yn arwain at gŵyn, ymdrinnir ag ef yn yr un ffordd ag unrhyw fater disgyblu arall.

8. Canllawiau Hylendid Bwyd a Phersonol

Mae enw da *Cletwr* ac iechyd ein cwsmeriaid yn dibynnu ar gynnal safon uchel o ran hylendid cyffredinol a thrin bwyd

Perygl difrifol i iechyd yw diffyg hylendid personol ac arferion drwg wrth drin bwyd. Gall arferion drwg arwain at halogi bwyd sy'n agored iawn i berygl o'r fath.

Hylendid personol

Disgwylir i staff a gwirfoddolwyr ddilyn y gweithdrefnau hylendid personol isod:

- Golchwch eich dwylo **cyn** dechrau gwaith
- Golchwch eich dwylo **ar ôl** bwyta, ysmygu ac yfed
- Golchwch eich dwylo **ar ôl** cael seibiant neu fynd i'r tŷ bach
- Golchwch eich dwylo **ar ôl** trin gwastraff bwyd, golchi llestri, clirio sbwriel neu drafod deunydd pacio allanol
- Defnyddiwch dywelion papur gan sychu'ch dwylo'n drylwyr i leihau perygl bacteria
- Peidiwch â llyfu'ch bysedd cyn defnyddio deunyddiau lapio
- Peidiwch â sychu'ch trwyn na thisian dros fwyd
- Cadwch eich gwallt, eich ewinedd a'ch dillad yn lân
- Rhaid gorchuddio toriadau â gorchudd dal dŵr glas
- Rhaid sôn am unrhyw chwydu, dolur rhydd, clefydau a thoriadau croen wrth un o'r reolwyr

Dillad

- Ni chaniateir i staff na gwirfoddolwyr wisgo persawr na sent eillio cryf
- Dylai'r staff a'r gwirfoddolwyr edrych yn gymen ac yn lân
- Gwisgwch y ffedogau sydd wedi'u darparu pan fyddwch yn gweithio yn y siop a'r caffi
- Tynnwch eich ffedog cyn cael seibiant

Hylendid cyffredinol

Mae'n bwysig cadw safle *Cletwr* yn lân bob amser. Rhaid dilyn gweithdrefnau glanhau penodol.

Hylendid yn y caffi

Mae hylendid yn arbennig o bwysig wrth weithio yng nghaffi Cletwr. Rhaid glynu wrth yr arferion canlynol:

- Cliriwch lestri a chytleri sydd wedi'u defnyddio
- Glanhewch y byrddau'n rheolaidd â golch gwrthfacterol a chlwtyn glas
- Rinsiwch lestri a chytleri cyn eu rhoi yn y peiriant golchi llestri
- Gwnewch yn siŵr bod llieiniau sychu llestri'n lân
- Glanhewch yr ardal serfio bwyd yn rheolaidd â golch gwrthfacterol a chlwtyn glas
- Dylid sôn am unrhyw lestri sydd wedi'u tolcio a'u taflu
- Glanhewch pig y peiriant coffi gyda clwtyn pinc yn unig.
- Glanhewch y toiledau gyda chlwtyn melyn yn unig.

9. Canllawiau Iechyd a Diogelwch

Mae *Cwmni Cymunedol Cletwr* yn ymrwymedig i gynnal amgylchedd lle mae iechyd a diogelwch ei gwsmeriaid, ei gyflogeion a'i wirfoddolwyr yn ystyriaeth ganolog.

Y Cwmni sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am iechyd a diogelwch yn y siop a'r caffi. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb gan bob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr am ymgyfarwyddo â'r canllawiau hyn ac ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant cysylltiedig sydd ei angen. Gall torri rheolau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch arwain at gamau disgyblu.

Os bydd aelod o staff neu wirfoddolwr yn ansicr am unrhyw weithred neu sefyllfa mewn cysylltiad â materion iechyd a diogelwch dylent ofyn cyngor un o reolwyr y siop, neu os bydd angen, Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Er mwyn darparu amgylchedd diogel ac iach, byddwn yn darparu ac yn cynnal:

- Amgylchedd glân gan roi sylw arbennig i reoliadau ynglŷn â storio a thrin bwyd
- Amgylchedd glanwaith gan roi sylw arbennig i'n canllawiau ar gyfer hylendid bwyd a hylendid phersonol

- Cyfarpar a systemau gwaith sy'n ddiogel ac sy'n gweithio'n dda

- Trefniadau digonol er mwyn sicrhau nad oes perygl i iechyd wrth drin, storio a chludo stoc a chyfarpar

- Digon o wybodaeth i gwsmeriaid i osgoi unrhyw beryglon a deall beth i'w wneud os bydd unrhyw ddigwyddiad, fel tân

- Digon o wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwylio i staff a gwirfoddolwyr i osgoi peryglon a chyfrannu i gynnal amgylchedd di-risg

- Cyfleusterau digonol er mwyn delio â materion iechyd damweiniol sy'n codi ymhlith staff, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys darparu offer Cymorth Cyntaf a digon o staff/gwirfoddolwyr sydd â thystysgrif mewn Cymorth Cyntaf

- Nodir gweithdrefnau penodol i gynnal lefelau iechyd a diogelwch digonol yn y siop a'r caffi mewn llawlyfrau gweithdrefn. Mae'r blychau isod yn amlinellu'r meysydd pryder cyffredinol:

Damweiniau a Chymorth Cyntaf

- Cedwir y blwch Cymorth Cyntaf mewn lle hygyrch
- Bydd aelodau staff yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf sylfaenol
- Hysbysir gwirfoddolwyr am weithdrefnau damweiniau
- Cyfeirir damweiniau adroddadwy i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn unol â rheoliadau cyfreithiol
- Ymchwilir i ddigwyddiadau difrifol er mwyn penderfynu'r achos a sefydlu mesurau ataliol

Tân

- Lleolir synwyryddion mwg a diffoddyddion tân mewn mannau strategol ar y safle
- Dangosir yr allanfa dân yn glir i holl ddefnyddwyr y safle
- Cyfarwyddir staff a gwirfoddolwyr ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer atal perygl tân
- Cyfarwyddir staff a gwirfoddolwyr ynghylch y gweithdrefnau o ran y camau i'w cymryd os bydd tân yn dechrau, neu os amheuir bod tân wedi dechrau

Diogelwch Bwyd

- Bydd stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd am ddyddiadau 'gwerthu erbyn' ac fe'i teflir os bydd y dyddiad wedi mynd heibio
- Bydd cyflwr bwyd ffres yn cael ei wirio'n ddyddiol ac fe deflir y bwyd pan fydd angen
- Bydd yn ofynnol i gyflenwyr bwyd sydd wedi'i goginio, megis teisennau, fod ag achrediad hylendid bwyd.
- Bydd y safonau a amlinellir yn ein canllawiau hylendid bwyd a phersonol yn berthnasol

10. Canllawiau Adnoddau a Gwaredu Gwastraff

Mae agwedd gyfrifol tuag at ddefnyddio adnoddau a gwaredu gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i'n busnes, yn ein helpu i sicrhau bod *Cletwr* yn fodel ar gyfer cyfrifoldeb amgylcheddol.

Adnoddau

Busnes cymunedol yw Cletwr sy'n ymrwymedig i werthoedd lleoliaeth ac i gynaliadwyedd adnoddau naturiol. Rydym yn rhedeg Cletwr gyda sylw i'r ffordd yr ydym yn defnyddio trydan a dŵr, gan geisio arfer darbodaeth wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn heb gyfaddawdu o ran iechyd a diogelwch na chyfforddusrwydd.

Mae ein gweithdrefnau dyddiol yn rhoi braslun o ffyrdd y gall yr adnoddau hyn gael eu harbed.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i leihau effeithiau cludiant ar yr amgylchedd, drwy brynu'n lleol lle bo'n bosibl a thrwy archebu stoc gan nifer cyfyngedig o gyflenwyr fel nad ydym yn dibynnu ar faniau dosbarthu niferus.

Deunyddiau

Wrth adnewyddu ac addurno Cletwr, lle bo'n bosibl rydym wedi defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy neu sydd wedi'u hailgylchu.

Gwaredu Gwastraff

Rydym yn ymwybodol o'r swmp sylweddol o wastraff a achosir wrth bacio stoc ac o'r cynnyrch fydd yn cael ei werthu yn y caffi. Mae'n well gennym archebu nwyddau sydd wedi'u pacio mewn deunyddiau ailgylchadwy.

Cedwir cardbord a mathau eraill o ddeunydd pacio a'u hailgylchu'n rheolaidd.

Anfonir gwastraff organig a ddaw o baratoi bwyd, llysiau sydd heb eu gwerthu a ffynonellau eraill i'w ailgylchu fel compost, os yn bosibl trwy drefniant â chyflenwyr cynnyrch organig lleol.

11. Polisi Gwerthu mewn Cysylltiad ag Oedran

Mae cryn gyfrifoldeb ar ein busnes i ddiogelu iechyd aelodau ieuengaf y gymuned drwy eu helpu i osgoi defnyddio cynhyrchion niweidiol a pheryglus.

Ni chaiff alcohol na chynhyrchion tybaco eu gwerthu na'u cyflenwi i bobl y gwyddys eu bod o dan 18 oed.

Ni chaiff cynhyrchion sy'n cynnwys sylweddau niweidiol, megis toddyddion a chyfansoddion organig anweddol, eu gwerthu i unrhyw un o dan 18 oed os credir y byddant yn cael eu defnyddio gan rywun o dan 18 oed at ddibenion meddwi.

Bydd yn ofynnol ar unrhyw un sy'n ceisio prynu'r nwyddau hyn y tybir efallai ei fod o dan yr oedran hwn, ddangos un o'r canlynol er mwyn profi ei oedran. Yn achos alcohol, byddwn yn dilyn strategaeth fanwerthu Herio 25 sy'n annog unrhyw un sydd dros 18 ond sy'n edrych o dan 25 i gario ID derbyniol:

- Trwydded yrru â llun
- Pasport
- Cerdyn profi oedran sy'n cynnwys hologram PASS



Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn yn syrthio ar yr aelod o staff neu'r gwirfoddolwr sy'n gweithio ar dil Cletwr ar y pryd neu sy'n goruchwylio'r siop.

Cedwir cynhyrchion tybaco y tu ôl i'r cownter a dangosir arwydd sy'n dweud:

'Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed'

Darperir cyngor manwl ar wasanaethu cwsmeriaid a all herio'r polisi hwn yn weithdrefnau *Cletwr.*

12. Polisi Diogelu Plant

Credwn ei bod bob amser yn annerbyniol i blentyn neu berson ifanc brofi cam-drin o unrhyw fath ac rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu lles pob plentyn a pherson ifanc, trwy ymrwymiad i ymarfer sy'n eu hamddiffyn.

Rydym yn cydnabod bod:

- lles y plentyn/person ifanc yn hollbwysig
- mae gan bob plentyn, waeth beth fo'i oedran, anabledd, rhyw, treftadaeth hiliol, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth, yr hawl i amddiffyniad cyfartal rhag pob math o niwed neu gamdriniaeth
- mae gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, eu rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn hanfodol i hyrwyddo lles pobl ifanc.

Pwrpas y polisi:

- Diogelu'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau Cwmni Cymunedol Cletwr, gan gynnwys plant aelodau neu ddefnyddwyr
- Rhoi arweiniad i staff a gwirfoddolwyr ar y gweithdrefnau y dylent eu mabwysiadu os ydynt yn amau bod plentyn neu berson ifanc yn dioddef, neu mewn perygl o niwed.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys uwch reolwyr a'r bwrdd ymddiriedolwyr, staff cyflogedig, gwirfoddolwyr a gweithwyr sesiynol, staff asiantaeth, myfyrwyr neu unrhyw un sy'n gweithio ar ran Cwmni Cymunedol Cletwr.

Byddwn yn ceisio diogelu plant a phobl ifanc drwy:

- eu gwerthfawrogi, gwrando arnynt a'u parchu
- mabwysiadu canllawiau amddiffyn plant trwy weithdrefnau a chod ymddygiad ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel, gan sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud
- rhannu gwybodaeth am amddiffyn plant ac arfer da gyda phlant, rhieni, staff a gwirfoddolwyr
- rhannu gwybodaeth am bryderon ag asiantaethau sydd angen gwybod, a chynnwys rhieni a phlant yn briodol
- darparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr trwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant
- Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu ein polisi a'n harferion da yn flynyddol

13. Polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad yw pobl fregus sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael eu cam-drin a bod arferion gwaith yn lleihau'r risg o gamdriniaeth o'r fath. Mae gan Staff, Gwirfoddolwyr a Chyfarwyddwr Cwmni Cymunedol Cletwr ddyletswydd i adnabod cam-drin a rhoi gwybod amdano.

Mae gan Staff, Gwirfoddolwyr a Chyfarwyddwr Cwmni Cymunedol Cletwr ddyletswydd i adnabod cam-drin a rhoi gwybod amdano.

Diffiniad

Oedolion agored i niwed yw bobl sydd dros 18 oed ac sy'n cael neu angen cymorth a gwasanaethau arnynt i fyw yn y gymuned. Efallai na fydd oedolion agored i niwed yn gallu gofalu amdanynt eu hunain ac ni allant amddiffyn eu hunain rhag niwed neu ecsploetiaeth gan bobl eraill.

Gall cam-drin gynnwys:

- Corfforol
- Ariannol
- Materol
- Rhywiol
- Seicolegol
- Gwahaniaethol
- Emosiynol
- Esgeuluso

Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw leoliad, cyhoeddus neu breifat, a gall unrhyw un ei gyflawni.

Cyfrifoldebau Staff, Gwirfoddolwyr a Chyfarwyddwyr *Cwmni Cymunedol Cletwr*:

- Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o angen amddiffyn oedolion bregus
- Hysbysu'r asiantaethau priodol os canfyddir neu os amheuir camdriniaeth
- I gefnogi, a lle bo modd, sicrhau diogelwch unigolion, a sicrhau bod pob atgyfeiriad i wasanaethau yn cynnwys gwybodaeth lawn mewn perthynas â risg a bregusrwydd
- I wirio gwirfoddolwyr a staff sydd â mynediad i Oedolion Agored i Niwed, neu sy'n gweithio gyda nhw trwy'r Bwrdd Cofnodion Troseddol (CRB)

Cyfrifoldebau Staff a Gwirfoddolwyr:

- Bod yn gyfarwydd â'r polisi amddiffyn oedolion agored i niwed
- Cymryd camau priodol yn unol â'r polisi hwn
- Datgan unrhyw euogfarnau presennol neu ddilynol.

Cefnogaeth i'r rhai sy'n adrodd am gamdriniaeth

Dylai pawb sy’n gwneud cwyn neu honiad neu’n mynegi pryder, boed yn staff, yn wirfoddolwyr neu’n ddefnyddwyr gwasanaeth, fod yn hyderus:

- Byddant yn cael eu cymryd o ddifrif
- Bydd eu sylwadau fel arfer yn cael eu trin yn gyfrinachol, ond gellir rhannu eu pryderon gyda'r awdurdodau priodol os ydynt hwy neu eraill mewn perygl sylweddol

Mae gan yr Oedolyn Agored i Niwed yr hawl:

- I fod yn ymwybodol o'r polisi hwn
- I ddigwyddiadau honedig gael eu cydnabod a'u cymryd o ddifrif
- I dderbyn triniaeth deg a pharchus drwyddi draw
- I fod yn rhan o unrhyw broses fel y bo'n briodol
- I dderbyn gwybodaeth am y canlyniad

Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu ein polisi a'n harferion da yn flynyddol.